# Canllawiau a Chymhwysedd

## 1. Trosolwg

Mae'r Grant Twf Manwerthu, Gwasanaethau, Lletygarwch a Thwristiaeth yn cael ei ariannu drwy'r Gronfa Twf Lleol a'i weinyddu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent fel rhan o gyfres ehangach o gronfeydd ysgogi economaidd.

Mae'r cynllun yn darparu buddsoddi cyfalaf wedi'i dargedu i gefnogi busnesau sy'n gweithredu o fewn yr economi sylfaenol a'r economi ymwelwyr, gan helpu busnesau i wella cynhyrchiant, cystadleurwydd, cynaliadwyedd a gwydnwch hirdymor.

Mae'r gronfa yn cefnogi buddsoddi sy'n galluogi busnesau i wneud y canlynol:

- Gwella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd gweithredol
- Gwella profiad cwsmeriaid ac ansawdd gwasanaethau
- Creu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth gynaliadwy
- Diogelu swyddi presennol
- Cynyddu gwerthiannau, nifer yr ymwelwyr a gwariant ymwelwyr
- Mabwysiadu technolegau a systemau digidol newydd
- Gwella cystadleurwydd a chynaliadwyedd y busnes
- Cryfhau cadwyni cyflenwi lleol
- Cefnogi twf cynaliadwy a charbon isel ymhlith busnesau

Mae'r cynllun yn cyfrannu at **Flaenoriaeth 1 y Gronfa Twf Lleol: Busnesau mwy cynhyrchiol a chystadleuol** drwy gefnogi buddsoddi cyfalaf sy'n ysgogi twf busnes, cyflogaeth a gweithgarwch economaidd lleol.

Er bod cynhyrchiant a chynaliadwyedd busnesau yn parhau i fod yn amcanion pwysig, mae'r cynllun yn rhoi pwyslais cryf ar gefnogi prosiectau sy'n cyflawni effaith economaidd drwy greu swyddi, diogelu swyddi a thyfu busnesau.

### Cyfnod cyflwyno'r rhaglen

Dim ond yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27 y mae cyllid ar gael. Rhaid cwblhau pob prosiect cymeradwy yn llawn, mynd i'r holl wariant a thalu amdano, a chyflwyno hawliadau grant erbyn **31 Ionawr 2027** fan bellaf.

Rhaid i geiswyr ddangos yn ystod y cam ymgeisio y gellir cyflawni eu prosiect o fewn yr amserlenni hyn.

**2. Amcanion y gronfa**

Nod y Grant Twf Manwerthu, Gwasanaethau, Lletygarwch a Thwristiaeth yw:

- Cefnogi twf a chynaliadwyedd busnesau
- Creu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth gynaliadwy
- Diogelu swyddi presennol
- Cynyddu cynhyrchiant a chystadleurwydd busnesau
- Annog busnesau i foderneiddio a mabwysiadu systemau digidol
- Gwella'r economi ymwelwyr a'r cynnig busnes lleol
- Cynyddu buddsoddi yn y sector preifat
- Cryfhau cadwyni cyflenwi lleol a chyfleoedd caffael lleol
- Annog buddsoddiadau carbon isel ac amgylcheddol gynaliadwy
- Meithrin gwydnwch o fewn economi sylfaenol Blaenau Gwent

**3. Blaenoriaethu cyflogaeth ac effaith economaidd**

Mae'r Grant Twf Manwerthu, Gwasanaethau, Lletygarwch a Thwristiaeth yn rhoi pwyslais cryf ar effaith economaidd.

Disgwylir i geiswyr ddangos sut y bydd y buddsoddiad arfaethedig:

- Yn creu swyddi newydd; a/neu
- Yn diogelu swyddi presennol; a/neu
- Yn gwella cynaliadwyedd a gwydnwch eu busnes; ac
- Yn cyfrannu at weithgarwch economaidd uwch o fewn Blaenau Gwent

Bydd prosiectau sy'n dangos lefelau uwch o effaith ar gyflogaeth o'u cymharu â'r grant y gofynnwyd amdano yn cael blaenoriaeth uwch wrth eu hasesu.

Er na fydd pob prosiect yn creu twf cyflogaeth ar unwaith, rhaid i geiswyr ddangos yn glir sut mae'r buddsoddiad yn cyfrannu at berfformiad busnes gwell, mwy o wariant gan gwsmeriaid, cystadleurwydd gwell neu gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol.

## 4. Pwy all wneud cais

### Ceiswyr cymwys

Rhaid i geiswyr fod fel a ganlyn:

- Wedi'u lleoli ym Mlaenau Gwent
- Yn masnachu'n weithredol
- Yn gweithredu ar sail fasnachol amser llawn
- Yn gallu dangos hyfywedd ariannol
- Yn gallu dangos eu bod yn gallu cyflawni'r prosiect arfaethedig

Mae sefydliadau cymwys yn cynnwys:

- Unig fasnachwyr
- Partneriaethau
- Cwmnïau cyfyngedig
- Cydweithfeydd
- Cwmnïau buddiant cymunedol
- Mentrau cymdeithasol
- Elusennau sy'n ymgymryd â gweithgarwch masnachu masnachol
- Partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig

### Sectorau cymwys

**Manwerthu**
Yn cynnwys:

- Manwerthwyr annibynnol
- Manwerthwyr arbenigol
- Manwerthwyr canol tref
- Busnesau cyfleusterau lleol

**Lletygarwch**
Yn cynnwys:

- Caffis
- Bwytai
- Tafarndai
- Busnesau arlwyo

- Busnesau bwyd a diod

**Y sector gwasanaethau**
Yn cynnwys:
- Gwasanaethau proffesiynol
- Gwasanaethau busnes i fusnes
- Diwydiannau creadigol
- Gwasanaethau dylunio
- Ffotograffiaeth
- Gwasanaethau argraffu
- Busnesau crefftau a gosod
- Busnesau tirlunio
- Busnesau gwella cartrefi

**Twristiaeth a hamdden**
Yn cynnwys:
- Atyniadau ymwelwyr
- Darparwyr gweithgareddau
- Atyniadau diwylliannol a threftadaeth
- Darparwyr llety twristiaeth
- Cyfleusterau hamdden
- Busnesau manwerthu a lletygarwch ym maes twristiaeth

**Gellir rhoi blaenoriaeth i'r canlynol:**
- Busnesau sy'n creu cyfleoedd cyflogaeth
- Busnesau sy'n diogelu cyflogaeth
- Busnesau sydd wedi'u lleoli yng nghanol trefi
- Busnesau sy'n gwella'r economi ymwelwyr
- Busnesau sy'n gwella hygyrchedd
- Busnesau sy'n buddsoddi mewn technoleg ddigidol
- Busnesau sy'n mabwysiadu arferion busnes cynaliadwy
- Mentrau cymdeithasol sy'n darparu manteision economaidd a chymunedol
- Busnesau sy'n cryfhau cadwyni cyflenwi lleol

**5. Ceisiadau anghymwys**

Fel arfer, ni fydd ceisiadau'n cael eu cefnogi o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Mae'r prosiect yn seiliedig ar refeniw yn bennaf.
- Mae'r gwariant arfaethedig at ddibenion amnewid arferol heb unrhyw welliant mesuradwy.
- Nid oes unrhyw fudd economaidd amlwg nac i dwf na chynhyrchiant y busnes.
- Mae'r prosiect yn dyblygu gweithgarwch presennol a ariennir yn gyhoeddus.
- Ni all y prosiect ddangos ychwanegedd.
- Mae'r ceisydd, busnes, perchennog, cyfarwyddwr neu bartner wedi methu â chydymffurfio â thelerau ac amodau grant blaenorol a ddyfarnwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Mae hyn yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:
    - Methu â darparu gwybodaeth fonitro
    - Methu â darparu tystiolaeth o allbynnau, canlyniadau neu ymrwymiadau cyflogaeth
    - Methu ag ymateb i geisiadau monitro
    - Methu â chydymffurfio ag amodau grant
    - Materion yn ymwneud ag adennill grantiau, adfachu neu gydymffurfio sydd heb eu datrys

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cadw'r hawl i ystyried perfformiad grantiau blaenorol a hanes cydymffurfio wrth benderfynu ar gymhwystra a dyfarnu cyllid.

Mae'r cyngor yn cadw'r hawl i wrthod ceisiadau nad ydynt yn dangos budd economaidd, gwerth am arian neu addasrwydd strategol yn glir.

**6. Manteision economaidd disgwyliedig**

Rhaid i geiswyr ddangos sut y bydd y buddsoddiad arfaethedig yn cyfrannu at un neu fwy o'r canlyniadau canlynol.

**Canlyniadau blaenoriaethol**
- Creu swyddi newydd
- Diogelu swyddi presennol

- Mwy o fuddsoddi yn y sector preifat

**Canlyniadau ychwanegol**

- Cynnydd mewn gwariant gan gwsmeriaid, gwerthiannau neu drosiant
- Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr
- Twf a chynaliadwyedd y busnes
- Profiad gwell i gwsmeriaid
- Mabwysiadu technolegau digidol
- Gwell cynhyrchiant ac effeithlonrwydd
- Cynnig gwell i ymwelwyr
- Hygyrchedd gwell
- Cadwyni cyflenwi lleol wedi'u cryfhau
- Twf busnes cynaliadwy a charbon isel

Bydd gofyn i geiswyr ragweld canlyniadau disgwyliedig fel rhan o'r broses ymgeisio.

**7. Gwariant cymwys**

Mae'r cynllun yn canolbwyntio'n bennaf ar fuddsoddi cyfalaf.

**Costau cymwys**

Mae enghreifftiau o wariant cymwys yn cynnwys:

- Gwelliannau mewnol nad ydynt yn adeileddol
- Gosodiadau a ffitiadau ar gyfer y cwsmer
- Offer sy'n gwella'r gwasanaeth a ddarperir
- Systemau a meddalwedd ddigidol
- Systemau pwynt talu
- Systemau archebu a chadw lle
- Systemau rheoli cysylltiadau â chwsmeriaid
- Llwyfannau e-fasnach
- Offer a chaledwedd TG
- Gwelliannau i brofiad y cwsmer
- Seilwaith sy'n gysylltiedig â thwristiaeth
- Gwelliannau hygyrchedd
- Mannau i gwsmeriaid yn yr awyr agored
- Arwyddion

- Offer sy'n defnyddio ynni'n effeithlon
- Gwelliannau cynaliadwyedd sy'n gysylltiedig â thwf busnes neu brofiad cwsmeriaid

**Costau refeniw cyfyngedig**

Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir cefnogi'r canlynol lle maent yn gysylltiedig yn uniongyrchol â gweithredu offer a ariennir:

- Trwyddedau meddalwedd hanfodol
- Hyfforddiant arbenigol sy'n ofynnol i weithredu offer a ariennir

Bydd cymeradwyaeth yn ôl disgresiwn y cyngor.

**Costau anghymwys**

Nid yw'r costau canlynol yn gymwys:

- Cyflogau a thaliadau gweithio
- Marchnata a hysbysebu cyffredinol
- Gwasanaethau ymgynghori
- Rhent a chyfleustodau
- Stoc a nwyddau traul
- Cyfalaf gweithio
- Gwaith adeiladu
- Gwaith cynnal a chadw arferol
- Addurno ac atgyweiriadau
- Offer newydd tebyg am debyg heb welliant mesuradwy
- Gwaith cydymffurfio statudol
- Cerbydau
- TAW a threth
- Costau annisgwyl
- Gwariant ôl-weithredol

**8. Lefel y cymorth**

| Eitem | Swm |
|---|---|
| Grant lleiaf | £1,000 |
| Grant mwyaf | £25,000 |
| Cyfradd ymyrraeth | Hyd at 50% |

Rhaid i geiswyr ddarparu cyfraniad o o leiaf 50% tuag at gostau prosiect cymwys.

Dylai ceisiadau ganolbwyntio ar wariant cyfalaf sy’n cefnogi twf busnes, cynhyrchiant, cystadleurwydd, profiad y cwsmer a chanlyniadau cyflogaeth.

Fel arfer, dylid cyfyngu ceisiadau i uchafswm o bum eitem gwariant cyfalaf. Lle cynhwysir nifer o eitemau, dylent ffurfio rhan o brosiect wedi’i ddiffinio’n glir sy’n cyfrannu at y canlyniadau busnes a’r manteision economaidd arfaethedig.

Bydd dyfarniadau grant yn gymesur â maint y buddsoddiad, yr effaith ar gyflogaeth, a’r manteision economaidd ehangach a gyflwynir.

**Grantiau gwerth uwch**
Disgwylir i geisiadau sy’n ceisio dyfarniadau grant mwy ddangos lefelau cyfrannol uwch o effaith economaidd.

Rhoddir ystyriaeth benodol i’r canlynol:
- Nifer y swyddi a grëir
- Nifer y swyddi a ddiogelir
- Cynaliadwyedd y gyflogaeth
- Gwelliannau ym mherfformiad y busnes
- Manteision i’r economi ymwelwyr
- Yr effaith ar ganol trefi
- Gwelliannau i gynhyrchiant
- Manteision economaidd ehangach
- Gwerth am arian

Efallai na fydd prosiectau sy’n ceisio lefelau uwch o gyllid grant heb fuddion cyflogaeth ac economaidd cymesur yn cael blaenoriaeth ar gyfer cymorth.

**9. Cyfnodau ymgeisio**

Bydd y Grant Twf Manwerthu, Gwasanaethau, Lletygarwch a Thwristiaeth yn gweithredu drwy gylchoedd ariannu cystadleuol cyfnodol, yn amodol ar argaeledd cyllid.

Cyhoeddir manylion cylchoedd ariannu cyfredol, gan gynnwys dyddiadau agor a chau ar gyfer mynegi diddordeb, dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau, a'r cyllidebau sydd ar gael, drwy'r sianeli canlynol:

- Gwefan a sianeli cyfryngau cymdeithasol Hwb Busnes Blaenau Gwent
- Sianeli cyfathrebu Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Gweithgarwch hyrwyddo a marchnata cysylltiedig

Dylai ceiswyr sicrhau y gellir cwblhau prosiectau arfaethedig yn llawn, talu amdanynt, a hawlio ar eu cyfer erbyn 31 Ionawr 2027. Ni ellir bwrw ymlaen â cheisiadau am brosiectau na allant ddangos yn rhesymol y bydd modd eu cyflawni o fewn yr amserlenni sydd ar gael yn y rhaglen.

Nid yw cyflwyno cais yn gwarantu cyllid grant.

Lle mae'r galw'n fwy na'r cyllid sydd ar gael, bydd ceisiadau'n cael eu hasesu'n gystadleuol a'u rhestru yn ôl y meini prawf asesu cyhoeddedig. Cynigir cyllid i'r ceisiadau cymwys sydd â'r sgôr uchaf nes bod y gyllideb sydd ar gael wedi'i dyrannu'n llawn.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cadw'r hawl i wneud y canlynol:

- Agor cylchoedd ariannu ychwanegol
- Diwygio dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau
- Atal neu gau'r cynllun
- Amrywio dyraniadau cyllid rhwng cylchoedd ariannu
- Diwygio trefniadau'r rhaglen os oes angen

**10. Y broses ymgeisio**

**Cam 1 – Mynegi diddordeb**
Bydd gofyn i geiswyr ddarparu'r canlynol:

- Trosolwg o'r busnes
- Crynodeb o'r prosiect
- Yr hyn sydd ei angen ar y busnes neu'r cyfle sydd ar gael iddo

- Costau amcangyfrifedig y prosiect
- Manteision economaidd disgwyliedig
- Canlyniadau cyflogaeth arfaethedig
- Amserlen ar gyfer gweithredu'r prosiect yn dangos amser cwblhau a chyflwyno hawliad cyn 31 Ionawr 2027

**Cam 2 – Cais llawn**
Bydd gofyn i geiswyr a wahoddir i fwrw ymlaen â'u cais gyflwyno:
- Ffurflen gais wedi'i chwblhau
- Tri dyfynbris cymaradwy fesul eitem
- Y cyfrifon ariannol diweddaraf
- Cyfrifon rheoli lle bo'n berthnasol
- Rhagolwg llif arian 12 mis
- Rhagolwg elw a cholled 12 mis
- Tystiolaeth o gyllid cyfatebol
- Cynllun cyflawni prosiect manwl yn cadarnhau y gellir talu am yr holl wariant a hawlio ar ei gyfer erbyn 31 Ionawr 2027
- Gwybodaeth am gyflogaeth lle bo'n berthnasol
- Unrhyw wybodaeth ychwanegol y mae'r cyngor yn gofyn amdani

**11. Y fframwaith asesu**

Bydd ceisiadau'n cael eu sgorio yn erbyn y meini prawf canlynol:

**Effaith economaidd a chyflogaeth (35%)**
- Nifer y swyddi a grëir
- Nifer y swyddi a ddiogelir
- Cynaliadwyedd y gyflogaeth
- Ychwanegedd economaidd
- Cyfraniad at yr economi leol
- Manteision i'r economi ymwelwyr a chanol trefi

**Addasrwydd strategol (25%)**
- Aliniad ag amcanion y Gronfa Twf Lleol
- Cyfraniad at sectorau'r economi sylfaenol
- Cyfraniad at flaenoriaethau'r economi ymwelwyr

- Cymorth i gadwyni cyflenwi lleol

**Cynhyrchiant, gwella busnes a thwf (15%)**
- Gwelliannau i gynhyrchiant
- Cystadleurwydd
- Mabwysiadu digidol
- Gwelliannau i brofiad cwsmeriaid
- Ehangu a thyfu'r busnes

**Hyfywedd ariannol a chyflawnadwyedd (10%)**
- Cynaliadwyedd y busnes
- Cryfder ariannol
- Gallu i gyflawni'r prosiect
- Gallu i gwblhau'r prosiect a hawlio ar ei gyfer o fewn amserlenni'r rhaglen
- Amserlen gaffael a gweithredu realistig

**Gwerth am arian (15%)**
- Y canlyniadau o'u cymharu â'r grant y gofynnwyd amdano
- Defnydd priodol o arian cyhoeddus

Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu'n gystadleuol yn erbyn y meini prawf cyhoeddedig a'r gyllideb sydd ar gael.

**12. Rheoli cymorthdaliadau**

Bydd pob dyfarniad yn cael ei wneud yn unol â Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022.

Bydd gofyn i geiswyr wneud y canlynol:
- Datgan cyllid cyhoeddus blaenorol a dderbyniwyd
- Cwblhau pob datganiad rheoli cymorthdaliadau y mae'r cyngor yn gofyn amdano
- Darparu manylion am gymorth a dderbyniwyd o dan y ddarpariaethau Cymorth Ariannol Isafswm pan fydd hynny'n berthnasol

Gall methu â darparu gwybodaeth gywir arwain at dynnu cyllid grant yn ôl neu ei adennill.

**13. Y broses benderfynu**

Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu ar ôl i bob cylch ariannu ddod i ben.

Fel arfer, bydd ceiswyr yn cael gwybod am y canlyniad o fewn pedair wythnos i'r dyddiad asesu cyhoeddedig.

Mae cyllid yn ddewisol ac yn amodol ar y gyllideb sydd ar gael, blaenoriaethau'r rhaglen, a gallu'r ceisydd i gwblhau'r prosiect o fewn amserlenni gofynnol y rhaglen.

Nid oes hawl awtomatig i gael cymorth grant ac nid oes hawl statudol i apelio.

**14. Talu'r grant**

Telir arian grant mewn ôl-daliadau ar ôl cyflwyno'r canlynol:

- Cytundeb grant wedi'i lofnodi
- Datganiad rheoli cymorthdaliadau wedi'i lofnodi
- Anfonebau
- Prawf o daliad
- Tystiolaeth o gwblhau'r prosiect
- Tystiolaeth ffotograffig pan fo'n berthnasol

Rhaid peidio â dechrau prosiectau nes bod cymeradwyaeth ysgrifenedig wedi'i derbyn gan y cyngor.

Rhaid cwblhau prosiectau o fewn yr amserlenni a bennir yn y cytundeb grant.

Waeth beth fo amserlenni prosiectau unigol, rhaid cwblhau pob prosiect yn llawn a chyflwyno hawliadau grant terfynol erbyn **31 Ionawr 2027** fan bellaf.

Mae'r cyngor yn cadw'r hawl i dynnu cynnig grant yn ôl lle nad oes digon o hyder y gellir cwblhau prosiect a hawlio ar ei gyfer o fewn terfynau amser gofynnol y rhaglen.

**15. Dyddiadau cau ar gyfer cwblhau prosiectau**

Mae cyllid yn amodol ar derfynau amser llym ar gyfer y rhaglen.

Rhaid i geiswyr llwyddiannus wneud y canlynol:

- Cwblhau pob gweithgaredd prosiect cymeradwy erbyn 31 Ionawr 2027
- Mynd i'r holl wariant cymeradwy a thalu amdano erbyn 31 Ionawr 2027
- Cyflwyno pob dogfen hawlio grant erbyn 31 Ionawr 2027

Gall y cyngor dynnu cynnig grant cymeradwy yn ôl o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Mae'r prosiect wedi'i ohirio'n sylweddol
- Nid yw'r gwaith caffael wedi'i gwblhau o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt
- Nid oes digon o dystiolaeth y gellir cwblhau gwariant a hawliadau erbyn dyddiadau cau'r rhaglen

Ni fydd unrhyw gostau yr eir iddynt ar ôl 31 Ionawr 2027 yn gymwys i gael cymorth grant.

**16. Monitro ac adrodd**

Bydd gofyn i geiswyr llwyddiannus gymryd rhan mewn gweithgareddau monitro a darparu gwybodaeth am hyd at 24 mis ar ôl cwblhau'r prosiect.

**Monitro cyflogaeth**

Bydd creu a diogelu cyflogaeth yn rhan allweddol o waith monitro ar ôl y prosiect.

Gall tysiolaeth gynnwys:

- Contractau cyflogaeth
- Cofnodion cyflogres
- Cofnodion TWE
- Disgrifiadau swydd
- Cofnodion recriwtio

**Gwybodaeth fonitro ychwanegol**

Gall y cyngor hefyd ofyn am wybodaeth sy'n ymwneud â'r canlynol:

- Twf y busnes
- Cynnydd mewn trosiant

- Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr neu gwsmeriaid
- Gwelliannau i gynhyrchiant
- Buddsoddi ychwanegol sydd wedi'i sicrhau
- Manteision i'r gadwyn gyflenwi
- Gwelliannau cynaliadwyedd
- Perfformiad busnes parhaus

Gellir gofyn am dystiolaeth ategol drwy gydol y cyfnod monitro.

**17. Gofynion caffael**

Rhaid i geiswyr gael tri dyfynbris cymaradwy lle bynnag y bo modd.

Mae'r cyngor yn cadw'r hawl i fynnu tystiolaeth gaffael ychwanegol i ddangos gwerth am arian.

Ni fydd y dyfynbris isaf yn cael ei dderbyn yn ddiofyn.

**18. Twyll a chamliwio**

Mae'r cyngor yn cymryd twyll a chamliwio o ddifrif.

Gall unrhyw geisydd y canfyddir ei fod wedi darparu gwybodaeth ffug, gamarweiniol neu anghywir fod yn destun:

- Tynnu'r cynnig grant yn ôl
- Adennill cyllid grant
- Atgyfeirio at yr awdurdodau perthnasol

**19. Cadw cofnodion**

Rhaid i dderbynwyr grantiau gadw'r holl gofnodion prosiect, cofnodion caffael, dyfynbrisiau, anfonebau a thystiolaeth ariannol am gyfnod o o leiaf saith mlynedd ar ôl y taliad terfynol.

**20. Cyhoeddusrwydd a brandio**

Efallai y bydd gofyn i geiswyr llwyddiannus gydnabod y cymorth a dderbyniwyd drwy'r Gronfa Twf Lleol a chydymffurfio ag unrhyw ofynion cyhoeddusrwydd a brandio a gyhoeddir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.

**21. Cydweddu rhaglenni**

Mae'r Grant Twf Manwerthu, Gwasanaethau, Lletygarwch a Thwristiaeth yn rhan o gronfeydd ysgogi economaidd Blaenau Gwent, sydd hefyd yn cynnwys:

- Y Grant Dechrau Busnes
- Y Grant Datblygu Busnes

Gyda'i gilydd, mae'r rhaglenni hyn yn darparu llwybr strwythuredig sy'n cefnogi creu busnesau, cynhyrchiant, twf, creu swyddi a datblygu economaidd hirdymor.

**22. Egwyddorion allweddol**

Rhaid i bob prosiect a gefnogir drwy'r cynllun hwn wneud y canlynol:

- Darparu budd economaidd mesuradwy
- Creu a/neu ddiogelu cyflogaeth
- Gwella cynhyrchiant, cystadleurwydd neu gynaliadwyedd busnes
- Dangos ychwanegedd
- Cefnogi busnes i dyfu a datblygu
- Darparu gwerth am arian
- Cefnogi twf cynaliadwy mewn busnes
- Cryfhau gweithgarwch economaidd a chadwyni cyflenwi lleol
- Dangos bod modd ei gwblhau, a bod modd hawlio ar ei gyfer, erbyn 31 Ionawr 2027
- Cyfrannu at economi gryfach a mwy gwydn ym Mlaenau Gwent